Bwletin rieni 20/11/20

Nosweithiau Agored Blwyddyn 6

Roedd hi'n braf 'gweld' cymaint o rieni a phlant blwyddyn 6 mewn sesiynau rhithiol yr wythnos hon. Rwy'n gwybod bod nifer o rieni blwyddyn 6 hefyd yn rhieni disgyblion presennol yr ysgol felly gobeithiaf ein bod ni wedi ateb eich cwestiynau a gallwch gyfeirio unrhyw gwestiynau am y broses ymgeisio ac wedyn pontio at Mrs James, Arweinydd cynnydd a lles blwyddyn 6 a7 (Bl6a7@penweddig.ceredigion.sch.uk)

Pwyntiau Clod

Llongyfarchiadau i'r dosbarthiadau cyfnod allweddol 3 gyda'r pwyntiau clod uchaf am eu hymdrechion arbennig. Yn yr wythnos ddiwethaf y dosbarthiadau hyn yw 7 Teifi, 8 Ystwyth a 9 Teifi.

Gyrfa Cymru

Bydd swyddog gyrfa Cymru yn gweithio ar safle'r ysgol am weddill y tymor. Bydd hwn yn gyfle i ddisgyblion blwyddyn 11 a 13 derbyn cymorth wrth iddynt gadarnhau eu cynlluniau am y dyfodol.

Cadw'n ddiogel / Cadw'n iach

Rydyn ni'n atgoffa disgyblion yn rheolaidd o ddisgwyliadau iechyd a diogelwch ond mae cwpwl o negeseuon sirol wedi dod i'r ysgol:

- Mae rhai achosion lleol o ddisgyblion 6ed dosbarth ysgolion gwahanol a/neu fyfyrwyr coleg yn trefnu partïon a chymdeithasu ar draws sefydliadau. Mae hwn yn bryder a gall arwain at achosion COVID lledu o un person i nifer o sefydliadau felly pwysleisiwn bwysigrwydd lleihau cymysgu gyda grwpiau eraill.
- Wrth i ddisgyblion cael eu gollwng yn yr ysgol ar ddechrau neu ddiwedd y dydd gofynnaf yn garedig i chi aros yn eich ceir. Os ydych chi'n casglu disgybl ar droed mae angen cadw pellter o'r disgyblion eraill a chadw tu allan i ffiniau'r ysgol.



Dr Rhodri Thomas
Pennaeth

Parents Bulletin 20/11/20

Year 6 Open Evenings

It was nice to 'see' so many year 6 parents and children in virtual open evenings this week. I know that many year 6 parents are also parents of current pupils at the school so I hope we have answered your questions but you can also direct any remaining questions about the application process and transition to Mrs James, Year 6 and 7 progress and wellbeing leader (Bl6a7@penweddig.ceredigion.sch.uk)

Class points

Congratulations to the key stage 3 classes with the highest commendation points for their outstanding efforts. In the last week these classes have been 7 Teifi, 8 Ystwyth and 9 Teifi.

Careers Wales

Our Wales careers officer will be working on the school site for the remainder of the term. This will be an opportunity for year 11 and 13 pupils to receive support as they confirm their plans for the future.

Stay safe / Stay healthy

We regularly remind pupils of health and safety expectations but a couple of county messages have come to the school:

- There are some local cases of 6th form pupils from different schools and / or college students organizing parties and socializing across institutions. This is a concern and can lead to COVID cases spreading from one person to several establishments so we stress the importance of reducing mixing with other groups.
- As pupils are dropped off at school at the beginning or end of the day I kindly ask you to stay in your cars. If you are collecting a pupil on foot you need to keep a distance from the other pupils and stay outside the school boundaries.



Dr Rhodri Thomas
Headteacher